

# Gweithredu Gwirfoddol Merthyr

## Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



VOLUNTARY ACTION  
MERTHYR TYDFIL  
GWEITHREDU GWIRFODDOL  
MERTHYR TUDFUL

## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.10 Gwiriadau cofnodion troseddol

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn un o asiantaethau'r llywodraeth ac mae'n darparu siop un stop i'r rhai sy'n ceisio cael gafael ar wiriadau cofnod troseddol.

Mae Datgeliad (gwiriad y CRB) yn broses o gasglu gwybodaeth am weithgaredd troseddol posibl ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys collfarnau wedi'u disbyddu a cholffarnau heb ddarfod a rhybuddion a roddir gan yr Heddlu. Datgeliad yw'r dystysgrif sy'n cynnwys y wybodaeth hon.

Gellir defnyddio gwasanaeth Datgelu'r CRB drwy ddod yn Gorff Cofrestredig neu drwy wasanaethau Corff Ymbarél Cofrestredig sy'n gweithredu ar ran mudiadau eraill.

Ni ellir gwneud cais am Ddatgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol oni bai fod hynny'n arfer gorau a/neu'n bodloni'r gofynion gorfodol o ran cymhwysedd.

Mae dwy lefel o Ddatgeliad ar gael:-

**Safonol**– nid yw hyn ar gael bellach ar gyfer swyddi sy'n golygu gweithio gyda phlant neu gyswllt rheolaidd gydag oedolion agored i niwed. Bydd ar gael ar gyfer rhai swyddi diogelwch a gamblo.

**Manwl** – ar gyfer swyddi sy'n golygu gofalu'n rheolaidd am, goruchwylio, hyfforddi neu fod yn bennaf gyfrifol am blant neu oedolion agored i niwed. Cafodd cwmpas y Datgeliad Manwl ei ehangu er mwyn ystyried gweithgarwch rheoledig o fis Hydref 2009 ymlaen.

Bydd hyn yn darparu manylion am gollfarnau wedi'u disbyddu a cholffarnau heb ddarfod a rhybuddion. Yn ogystal, gall gynnwys gwybodaeth gan heddluoedd lleol a allai fod yn berthnasol i'r swydd.

Mae cam cofrestru Awdurdod Diogelu Annibynnol y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd ar stop er mwyn caniatáu i'r llywodraeth ailfodelu'r cynllun gan geisio cael un 'cymesur sy'n dangos synnwyr cyffredin' unwaith eto. O ganlyniad, mae cam cofrestru Awdurdod Diogelu Annibynnol y cynllun ar stop, ac ni chafodd ei lansio ar 26 Gorffennaf 2010.

Tra bydd y gofynion terfynol ar gyfer unigolion a ddylai gofrestru gyda'r cynllun yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, mae'n bwysig cofio bod y gofynion a gyflwynwyd fis Hydref fel rhan o gam cyntaf y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn dal mewn grym.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- er mis Ionawr 2009, mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi bod yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynglŷn â gwahardd. Bydd yn parhau i gynnal dwy restr sy'n cael eu diweddarau'n gyson, un ohonynt yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a'r llall yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed;
- bydd y gofynion presennol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn parhau mewn grym, a chaiff y rheini sy'n gymwys i gael y cyfryw archwiliadau barhau i wneud cais amdanynt;
- mae'n dal yn ddyletswydd gyfreithiol i gyflogwyr gyfeirio gwybodaeth at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol os ydynt wedi symud neu wedi diswyddo unigolyn gan eu bod wedi peri niwed neu gan fod perygl iddynt niweidio aelod o grŵp agored i niwed.

## **Cost Gwiriadau Cofnod Troseddol**

Mae'r CRB yn codi tâl ar gyfer cyflogeion taledig o

- Datgeliad Safonol £26
- Datgeliad Manylach £36

**Ni chodir tâl ar gyfer gwirfoddolwyr.**

## **Sut i gael Gwiriad Cofnod Troseddol**

Gall mudiadau wneud cais am wiriadau mewn dwy ffordd. Gall sefydliad wneud cais i'r CRB i ddod yn Gorff Cofrestredig neu gall wneud cais drwy Gorff Ymbarél Cofrestredig.

Fodd bynnag, efallai y bydd llawer o fudiadau'n credu y byddai dod yn Gorff Cofrestredig yn amhriodol iddynt hwy neu efallai na fyddant yn gymwys.

## **Uned Cofnodion Troseddol WCVA**

Neuadd Morfa, Stryd y Baddon, Y Rhyl LL18 3EB

Ffôn: 0800 0197 391

Ffacs: 01745 357593

[cru@wcva.org.uk](mailto:cru@wcva.org.uk)

[www.wcva-cru.org.uk](http://www.wcva-cru.org.uk)

Mae Uned Cofnodion Troseddol (UCT) WCVA yn un o Gyrrff Ymbarél Cofrestredig y CRB sy'n darparu mynediad AM DDIM i wasanaeth Datgeliad y CRB a Chynllun Fetio a Gwahardd yr ADA ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru.

Sefydlwyd yr Uned i helpu gyda phroses mwy diogel o recriwtio staff taledig a gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio i swyddi lle byddant yn gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Gall yr Uned Cofnodion Troseddol dderbyn ceisiadau a chydlofnodi ceisiadau am Ddatgeliad ar ran unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n recriwtio ar gyfer swyddi yng Nghymru.

Mae hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y gweithdrefnau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod mudiadau sy'n defnyddio gwiriadau cofnod troseddol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y CRB.

Mae'r gwasanaeth dwyieithog AM DDIM ac nid oes tâl gweinyddol i fudiadau gwirfoddol. Yr unig daliadau yw'r rhai a godir gan y CRB mewn cysylltiad â gwiriadau Datgelu ar gyfer cyflogeion taledig; nid yw'r CRB yn codi tâl am wiriadau gwirfoddolwyr.

Mae UCT WCVA yn croesawu ymholiadau gan fudiadau a hoffai wybod mwy am wiriadau cofnod troseddol neu sy'n dymuno defnyddio gwybodaeth yr UCT.

## Gwybodaeth bellach

UCT WCVA

Ffôn: 0800 0197 391

Ffacs: 01745 357593

[cru@wcva.org.uk](mailto:cru@wcva.org.uk)

[www.wcva-cru.org.uk](http://www.wcva-cru.org.uk)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful**

Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH

Elusen Gofrestredig 1060242

Ffôn: 01685 353900

[enquiries@vamt.net](mailto:enquiries@vamt.net)

Ffacs: 01685 353909

[www.vamt.net](http://www.vamt.net)



Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 04/08/2011